

Newid enw Cynulliad
Cenedlaethol Cymru
**Adroddiad ar ganlyniadau'r
ymgyngoriad**

Mehefin 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Newid enw Cynulliad
Cenedlaethol Cymru
**Adroddiad ar ganlyniadau'r
ymgyngoriad**

Mehefin 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cynnwys

Cefndir a methodoleg..... 1

Y gyfradd ymateb: 1

Canlyniadau'r arolwg..... 2

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau a ganlyn? 2

Cwestiwn 2: Pa mor dda, yn eich barn chi, y mae'r enwau isod yn disgrifio swyddogaeth a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru? 3

Cwestiwn 3: Pe bai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael enw newydd, byddai hynny'n golygu teitl newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Nodwch pa opsiwn sydd orau gennych. Os ydych o'r farn na ddylid newid enw'r Cynulliad, nid oes angen i chi roi ateb. 4

Sylwadau a gafwyd..... 5

Enw Cymraeg uniaith? 5

Yr angen i rôl y sefydliad fod yn eglur 6

Yn adlewyrchu ei swyddogaeth 6

Nid yw'n flaenoriaeth 7

Pryderon ynghylch costau 7

Amseru 7

Eglurder y Bil drafft..... 8

Sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg..... 9

Cyflwyniadau e-bost..... 10

Cefndir a methodoleg

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru rhwng 8 Rhagfyr 2016 a 3 Mawrth 2017.

Roedd arolwg dwyieithog ar gael, ar ffurf copi caled, ar-lein a fersiwn hawdd ei darllen. Cyhoeddwyd dogfennau ategol hefyd ochr yn ochr â'r arolwg i esbonio'r cefndir i'r ymgynghoriad.

Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo trwy:

- gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cynulliad;
- rhwydweithiau sy'n cynrychioli rhanddeiliaid penodol, grwpiau cymunedol, elusennau a sefydliadau; a
- sesiynau addysg, ymgysylltu â phobl ifanc a sesiynau allgymorth cymunedol, a chydag ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad.

Wrth drafod opsiynau ar gyfer cynnal yr ymgynghoriad, ystyriwyd nifer o ffactorau, gan gynnwys pa mor gynrychiadol fyddai'r sampl, a'r costau.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarparu data monitro cydraddoldeb, i helpu'r Comisiwn i asesu pa mor gynrychiadol oedd y sampl. Cadwyd golwg ar y data monitro cydraddoldeb yn ystod yr arolwg, a gwnaed ymdrechion i hyrwyddo'r arolwg ymhlith grwpiau nad oeddent, i bob golwg, yn cael eu cynrychioli'n ddigonol. Serch hynny, dylid nodi mai sampl o bobl sydd wedi dewis ymateb yw hwn. Mae'r ystadegau a gronwyd trwy gyfrwng yr arolwg hwn felly yn cynrychioli barn y rhai a ymatebodd yn hytrach na barn y cyhoedd yn gyffredinol.

Y gyfradd ymateb:

Cafwyd cyfanswm o 2,821 o ymatebion i'r arolwg. Cwblhawyd dros dri chwarter yr ymatebion hyn (79.8 y cant) ar-lein a 77.8 y cant yn Saesneg. Cafodd 55 (1.9 y cant) o'r arolygon eu llenwi ar ran sefydliad. Cafodd gweddill yr ymatebion eu llenwi gan unigolion.

Y prif ffigurau:


- 2,821 o ymatebion i'r arolwg
- 2,195 (77.8 y cant) o ymatebion Saesneg
- 626 (22.2 y cant) o ymatebion Cymraeg
- 55 (1.9 y cant) o ymatebion gan bobl a oedd yn ymateb ar ran sefydliad
- 2,250 (79.8 y cant) o ymatebion ar-lein
- 571 (20.2 y cant) o ymatebion ar bapur

Canlyniadau'r arolwg

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau a ganlyn?

A "Mae pobl yn deall swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dda"

Roedd tua thri o bob pump (59.7 y cant) o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad, 'Mae pobl yn deall swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dda'. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr (80.1 y cant) â'r datganiad 'Mae enw sefydliad yn bwysig i egluro'r hyn y mae'n ei wneud'. Cytunodd dros dri o bob pump o'r ymatebwyr (60.9 y cant) â'r datganiad, 'Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru newid ei enw'.




– Sylwer ei bod yn bosibl na fydd y canrannau bob amser yn cyrraedd cyfanswm o 100 y cant yn sgil y broses o dalgrynnu.

– Mae'r rhifau mewn cromfachau yn dangos faint o bobl a ymatebodd i bob datganiad.

Cwestiwn 2: Pa mor dda, yn eich barn chi, y mae'r enwau isod yn disgrifio swyddogaeth a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru?


Teimlai ymatebwyr mai'r enw Senedd Cymru/Welsh Parliament (73.2 y cant) sy'n disgrifio swyddogaeth a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru orau, ac yna Senedd Cymru/Parliament of Wales (68.8 y cant) a Senedd (52.5 y cant). Cynulliad Cenedlaethol Cymru (37.7 y cant) yw'r opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio leiaf.



- Sylwer ei bod yn bosibl na fydd y canrannau bob amser yn cyrraedd cyfanswm o 100 y cant yn sgil y broses o dalgrynnu.
- Mae'r rhifau mewn cromfachau yn dangos faint o bobl a ymatebodd i bob datganiad.

Cwestiwn 3: Pe bai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael enw newydd, byddai hynny'n golygu teitl newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Nodwch pa opsiwn sydd orau gennych. Os ydych o'r farn na ddylid newid enw'r Cynulliad, nid oes angen i chi roi ateb.

Member of the Welsh Parliament (MWP) / Aelod o Senedd Cymru (ASC) oedd orau gan dri o bob deg (30.0 y cant) o'r ymatebwyr, a'r ffefryn nesaf oedd Member of the Senedd (MS) / Aelod o'r Senedd (AS) a ddewiswyd gan dros chwarter yr ymatebwyr (28.4 y cant). Yr opsiwn a ffafriwyd leiaf oedd Wales Parliament Member (WPM) / Aelod o Senedd Cymru (ASC) (4.6 y cant). (Aelod o Senedd Cymru yw'r Gymraeg sy'n cyfateb i bob un ond un o'r opsiynau).



Sylwadau a gafwyd

Roedd tri chyfle i ymatebwyr roi eu sylwadau eu hunain.

Roedd byrdwn y sylwadau yn gymysgedd weddol gytbwys o rai a oedd yn cefnogi'r newidiadau, a rhai a oedd yn amau a fyddai newid o'r fath yn cynrychioli gwerth am arian neu'n awgrymu y dylid rhoi blaenoriaeth i faterion pwysicach.

Cafwyd cyfran sylweddol o sylwadau (er ei bod yn gyfran lawer llai, o'i chymharu) yn galw am newid yr enw i enw Cymraeg, uniaith. Daeth mwyafrif y sylwadau hyn gan yr ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg yn Gymraeg.

Rhoddir sampl o'r sylwadau isod. Nodir ag (W) y sylwadau hynny a wnaed yn wreiddiol yn y Gymraeg.

Enw Cymraeg uniaith?

"Dylid bod yn ofalus iawn i sicrhau ei fod yn adlewyrchu holl boblogaeth Cymru yn hytrach na pharhau i atgyfnerthu'r canfyddiad o'r Senedd fel sefydliad ar gyfer elit sy'n siarad Cymraeg."

"Dylai Cymru ddilyn esiampl Iwerddon a defnyddio termau brodorol yn unig ar gyfer ein senedd a swyddogion megis y Llywydd. Mae pawb yn defnyddio Taoiseach a Dáil." (W)

"Mae'n bwysig bod dwy iaith Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn yr enw newydd - ni fyddai'n iawn defnyddio dim ond un ohonynt."

Yr angen i rôl y sefydliad fod yn eglur

"Mae newid yr enw yn holl bwysig oherwydd y dryswch sydd wedi dilyn enwi'r Llywodraeth a'r ddeddfwrfa yn Gynulliad ym 1999. Mae hefyd yn bwysig i godi statws y sefydliad." (W)

"Mae cryn ddryswch yn parhau ar lawr gwlad beth yn union ydy gwaith y Cynulliad. Wrth reswm tydi'r cyfryngau ddim yn helpu yma. Byddai newid yr enw yn gymorth o safbwynt codi statws yn llygaid y cyhoedd." (W)

"Ro'n i'n meddwl bod Cynulliad Cymru wedi newid ei enw i Lywodraeth Cymru. Doeddwn i ddim yn sylweddoli bod y ddau'n bodoli ac yn wahanol i'w gilydd." (W)

"Yn sgil y ffaith bod y cyfryngau yn wan yng Nghymru, mae'n bwysig bod gan ein deddfwrfa enw y gellir ei adnabod ar unwaith ac sy'n adlewyrchu rôl y sefydliad."

"Nid wyf o'r farn y bydd yn newid canfyddiadau pobl ynghylch y sefydliad."

Yn adlewyrchu ei swyddogaeth

"Bydd ganddi bwerau Senedd, ac felly 'Senedd' ddylai ei henw fod." (W)

"Rwy'n teimlo y byddai newid yr enw i Senedd Cymru yn ychwanegu at fri y sefydliad ac yn ei roi ar sail gyfartal â Senedd yr Alban, o ran ei enw o leiaf."

"Nid wyf yn gweld unrhyw angen am hyn – ac rwy'n cefnogi cadw enw'r Cynulliad (sy'n cyferbynnu mewn modd priodol gyda "Senedd", pan fyddwch yn cyfeirio at Senedd y DU). Nid wyf yn teimlo bod "Cynulliad" yn awgrymu unrhyw fath o statws ail ddosbarth, ac mae Cynulliad Cenedlaethol Ffrainc yn enghraifft o hynny."

Nid yw'n flaenoriaeth

"Ni fyddai newid enw'r sefydliad yn gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl. Mae llawer o faterion pwysicach sydd angen sylw."

"Sicr bod achosion pwysicach i fod yn trafod a gwario arian arnynt." (W)

Pryderon ynghylch costau

"Ni ddylid gwastraffu arian ar "ail frandio" deunyddiau. Petai newid enw, dylid newidiadau brandio gael ei wneud mewn ffordd gwbl syml, a hynny'n raddol."
(W)

"Faint o amser a dreuliwyd eisoes yn gwneud gwaith drafftio cyfreithiol ar Fil o'r fath a dogfennau lliwgar (ac felly, beth oedd y gost - gan gynnwys y gost cyfle)?"

"Gormod o arian i newid yr enw - well i wario'r arian ar ysbytai ac ysgolion." (W)

"Yn bendant, rwy'n gweld gwerth newid yr enw o ran helpu pobl i ddeall yr hyn y mae'r corff o Aelodau Cynulliad yn ei wneud. Rwy'n pryderu ynghylch y costau sydd ynghlwm wrth newid yr enw."

"Pam mae angen gwario arian trethdalwyr Cymru ar newid diangen i enw'r sefydliad pan ellir buddsoddi'r arian yn well?"

"Peidiwch â gwario ffortiwn ar newidiadau."

Amseru

"Rwy'n credu y dylai unrhyw enw newydd ddod i rym ar ôl diddymu'r Cynulliad presennol yn dilyn etholiad nesaf y Cynulliad."

"Rwy'n cytuno â'r amserlen, ond dylid sicrhau bod y gost o weithredu unrhyw newid yn isel."

"Arhoswch tan yr etholiad nesaf."

Eglurder y Bil drafft

"Rwy'n hoff o symlrwydd y Bil."

"Rwy'n meddwl bod y ddeddfwriaeth ddrafft wedi'i llunio mewn modd rhesymegol, clir a hawdd i'w dilyn. Byddwn yn fodlon â'r darn hwn o ddeddfwriaeth ar gyfer newid yr enw."

Sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg

- Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru
- YMCA Casnewydd
- Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Cyngor Tref Bae Colwyn
- ACT Training
- Cyngor Cymuned y Wig
- Y Gwir Gymru
- FDF
- Cyngor Tref Rhisga
- Cyngor Tref Rhaeadr Gwy
- Cyngor Cymuned Cenarth
- Cyngor Cymuned Pen-y-ffordd
- Cyngor Tref Penarth
- Cyngor Cymuned Cenarth
- Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
- Cyngor Cymuned Llanllechid
- Cyngor Cymuned Maesyfed
- Cyngor Cymuned Bontnewydd
- Cyngor Cymuned Llys-faen
- Cyngor Cymuned Llanllwchaearn
- Cyngor ar Bopeth Sir Fynwy
- Mixtup
- Cyngor Cymuned Llandrinio ac Arddlîn
- Cyngor Tref Maesteg
- Cyngor Tref Conwy
- Mudiad Meithrin
- Ysgol Uwchradd Bodedern
- Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
- Traws Link Cymru
- Menter Iaith Sir y Fflint
- Cyngor Tref Abergele
- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
- Ysgol Uwchradd Bodedern
- Cabinet Ieuenctid y Fro
- Cyngor Cymuned Tonyrefail a'r Cylch
- Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) Cymru
- Ymgyrch Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru (CYPAW)
- Cyngor Tref Pontardawe
- Llais Gwynedd
- Cyngor Cymuned Penystyrywaid
- Cyngor Cymuned Clydau
- Cyngor Bro Llanllwni
- Cyngor Cymuned Pencraig
- Cyngor Tref Aberystwyth
- Let Down in Wales
- Cyngor Tref Criccieth
- Cyngor Tref Nant-y-glo a Blaenau
- Cyngor Tref Porthmadog
- Cyngor Tref Trefynwy
- Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy
- Cyngor Cymuned Llanfechain
- Cyngor tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan
- Cyngor Tref Pwllheli
- Cyngor Cymuned Abergwyngregyn
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Cyflwyniadau e-bost

Yn ogystal â'r arolwg, cafwyd cyfanswm o 227 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar ffurf e-bost. O'r ymatebion hyn, cafwyd 193 gan unigolion a lenwodd pro forma ar wefan Cymdeithas yr Iaith. Cafwyd yr ymatebion eraill (34 ohonynt) gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion. Roedd 14 o'r 34 hyn eisoes wedi llenwi'r arolwg, ac mae'r ymatebion hynny wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad uchod. Isod, ceir crynodeb o'r ymatebion eraill a ddaeth i law.

Mae'r 193 o ymatebion a gafwyd drwy'r pro forma ar wefan Cymdeithas yr Iaith yn datgan:

'Credwn mai'r enw sy'n disgrifio swyddogaeth a chyfrifoldebau'r sefydliad orau yw'r enw uniaith Gymraeg "Senedd".'

Mae'r un farn yn cael ei hategu yn ymateb Cymdeithas yr Iaith ei hun. Mae'r sefydliad hefyd yn nodi:

'O ran teitl yr aelodau, credwn mai "Seneddwyr" / "Seneddwr" yw'r teitl mwyaf addas.'

Mae Dathlu'r Gymraeg hefyd o'r farn y dylid defnyddio'r enw uniaith 'Senedd'.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cefnogi mabwysiadu un enw Cymraeg ar gyfer y sefydliad, sef y Senedd neu Senedd Cymru. Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn datgan y dylid cael un enw Cymraeg: Dylid defnyddio 'Senedd Cymru', a dylid galw'r Aelodau yn 'Aelodau o Senedd Cymru (ASC)'.

Mae Bwrdd Gorwel o'r farn mai'r term 'Senedd' yw'r dewis gorau.

Roedd gan y 13 o gynghorau dinas, tref, cefn gwlad a chymuned a ymatebodd safbwyntiau amrywiol ar y mater. Dywedodd pump ohonynt nad oedd angen newid enw'r sefydliad, gan nodi cost fel ffactor gwaharddol. Roedd pedwar yn cefnogi'r cynigion, â dau ohonynt yn ffafrio 'Senedd'.

Ysgrifennodd y Prif Weinidog at y Llywydd, a dywedodd:

'Rwy'n meddwl mai'r dewis gorau ar gyfer yr enw newydd yw Senedd Cymru/Welsh Parliament, a byddai'r Aelodau yn cael eu hadnabod fel Aelod o Senedd Cymru (ASC)/Member of the Welsh Parliament (MWP). Byddai hyn yn rhoi cysondeb cyfansoddiadol ac yn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o rôl y sefydliad.'

Meddai'r academydd, yr Athro Richard Wyn Jones:

'dylai'r deddfwrfa Gymreig gael enw dwyieithog – 'Senedd' yn y Gymraeg a 'Parliament' yn Saesneg – gan mai fel hyn mae hybu dealltwriaeth o swyddogaeth ein deddfwrfa genedlaethol ymhlith y cyhoedd.'

Ymatebion i'r arolwg - monitro cydraddoldeb

Ardal awdurdod lleol

Opsiwn	Sampl yr arolwg (2,552 o ymatebion)	Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth, 2015 – StatsCymru
Blaenau Gwent	30 (1.2%)	2.2%
Pen-y-bont ar Ogwr	62 (2.4%)	4.6%
Caerffili	84 (3.3%)	5.8%
Caerdydd	487 (19.1%)	11.5%
Sir Gaerfyrddin	147 (5.8%)	6.0%
Ceredigion	137 (5.4%)	2.4%
Conwy	70 (2.7%)	3.8%
Sir Ddinbych	65 (2.5%)	3.1%
Sir y Fflint	73 (2.9%)	5.0%
Gwynedd	208 (8.2%)	4.0%
Ynys Môn	113 (4.4%)	2.3%
Merthyr Tudful	20 (0.8%)	1.9%
Sir Fynwy	50 (2.0%)	3.0%
Castell-nedd Port Talbot	88 (3.4%)	4.5%
Casnewydd	66 (2.6%)	4.8%
Sir Benfro	76 (3.0%)	4.0%
Powys	142 (5.6%)	4.3%
Rhondda Cynon Taf	126 (4.9%)	7.7%
Abertawe	144 (5.6%)	7.8%
Torfaen	33 (1.3%)	3.0%
Bro Morgannwg	129 (5.1%)	4.1%
Wrecsam	99 (3.9%)	4.4%
Y tu allan i Gymru	103 (4.0%)	Amh.

Rhywedd

Opsiwn	Sampl yr arolwg (2,528 o ymatebion)	Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth, 2015 – StatsCymru
Dyn	1,490 (58.9%)	49.2%
Menyw	942 (37.3%)	50.8%
Gwell gennyf beidio â dweud	96 (3.8%)	N/A

Identify as transgender

Opsiwn	Sampl yr arolwg (2,376 o ymatebion)	Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth, 2015 – StatsCymru
Ydw	17 (0.7%)	Amh.
Nac ydw	2,231 (93.9%)	Amh.
Gwell gennyf beidio â dweud	128 (5.4%)	Amh.

Cyfeiriadedd rhywiol

Opsiwn	Sampl yr arolwg (2,334 o ymatebion)	Hunaniaeth rywiol yn ôl rhanbarth a gwlad, 2015 - Swyddfa Ystadegau Gwladol
Deurywiol	121 (5.2%)	0.6%
Menyw hoyw / lesbiad	36 (1.5%)	1.0% (Hoyw neu lesbiaidd)
Dyn hoyw	189 (8.1%)	
Heterorywiol	1,662 (71.2%)	95%
Gwell gennyf beidio â dweud	285 (12.2%)	2.9%
Rhywbeth arall	41 (1.8%)	0.5%

Oedran

Opsiwn	Sampl yr arolwg (2,508 o ymatebion)	Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth, 2015 – StatsCymru
O dan 16 oed	252 (10.0%)	17.9%
16 – 18	280 (11.2%)	3.6%
19 – 25	323 (12.9%)	9.5%
26 – 35	376 (15.0%)	12.0%
36 – 59	890 (35.5%)	30.8%
Dros 60 oed	387 (15.4%)	26.1%

Anabledd

Opsiwn	Sampl yr arolwg (2,399 o ymatebion)	Cyfrifiad 2011 – Swyddfa Ystadegau Gwladol*
Ydw	220 (9.2%)	22.7%
Nac ydw	2,047 (85.3%)	77.3%
Gwell gennyf beidio â dweud	132 (5.5%)	N/A

*geiriad y cwestiwn yn wahanol ar gyfer sampl yr arolwg hwn o'i gymharu â chyfrifiad 2011.

Math o anabledd

Opsiwn	Sampl yr arolwg (244 o ymatebion)	Cyfrifiad 2011 – Swyddfa Ystadegau Gwladol*
Anabledd corfforol	49 (20.1%)	N/A
Iechyd meddwl	81 (33.2%)	
Anabledd dysgu	34 (13.9%)	
Nam ar y synhwyrau	25 (10.2%)	
Cyflwr meddygol (e.e. canser, HIV, MS, cyflwr arall)	55 (22.5%)	

*nid oes data cymharol

Hunaniaeth genedlaethol

Opsiwn	Sampl yr arolwg (1,799 o ymatebion)	Cyfrifiad 2011 – Swyddfa Ystadegau Gwladol*
Cymru/Cymraes	1,271 (70.7%)	65.9%
Sais/Saesnes	83 (4.6%)	13.8%
Albanwr/Albanes	8 (0.4%)	0.6%
Gwyddel/Gwyddeles Gogledd Iwerddon	0 (0.0%)	0.2%
Prydeiniwr/Prydeines	355 (19.7%)	26.3%
Unrhyw hunaniaeth arall	82 (4.6%)	4.3%

* Yng Nghyfrifiad 2011 gallai'r ymatebwyr roi tic wrth fwy nag un categori, felly ni fydd y cyfanswm yn 100%

Tarddiad ethnig

Opsiwn	Sampl yr arolwg (2,365 o ymatebion)	Cyfrifiad 2011 – Swyddfa Ystadegau Gwladol
Gwyn	2,242 (94.8%)	95.6%
Grwpiau ethnig cymysg / aml- ethnigrwydd	32 (1.4%)	1.0%
Asiaidd	19 (0.8%)	2.3%
Du / Affricanaidd / Caribiaidd	6 (0.3%)	0.6%
Unrhyw darddiad ethnig arall	64 (2.7%)	0.5%